Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu

## gan y

## Panel Craffu

# Adolygiad o Achosion Troseddau Casineb

# (Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019)

# Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

Hydref 2019

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg .......... 2
2.1 Data cefndir .......... 3
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel .......... 4
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Panel .......... 5
5.0 Ystyried achosion troseddau ieuenctid – drwgdybiedigion ifainc .......... 5
Asesiad y Panel: Priodol 6.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 8
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 11
7.1 Arfer da .......... 14
7.2 Meysydd sydd angen gwelliant .......... 14
8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol .......... 14

## 1.0 Trosolwg

Yng nghyfarfod Panel Craffu ar Waredladau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys ar 14 Hydref 2019, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achoslon troseddau casineb a gafodd eu trin drwy Waredlad Tu Allan i'r Llys.

Ystyrlodd y Panel 15 achos. Roedd 8 yn ymwneud â drwgdybiedigion ifainc, a 7 yn ymwneud ag oedolion.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno maes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau arall posib a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o warediadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i ________________________________________ (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 14 Hydref 2019.

Llofnod: __________________________________

Dyddiad: __________________________________

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Waredíadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Roedd trafodaethau rhwng Timoedd Troseddau Ieuenctid ac Adran Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yn mynd rhagddynt mewn perthynas ag adolygu'r polisi cyfredol ynghylch Gwarediadau Adferol Ieuenctid a'r cynnig posibl o gymorth ar gyfer derbynwyr.
- Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Timoedd Troseddau Ieuenctid trwy eu fideo ar-lein am Swyddfeydd Ieuenctid.
- Estynnwyd gwahoddiad i Gadeirydd Ardal Cyfiawnder Lleol Canolbarth Cymru i ymuno â'r Panel yng ngoleuni ei faes awdurdod, sy'n cynnwys rhannau o ardal Heddlu Dyfed-Powys.

## 5.0 Ystyried achosion troseddau ieuenctid – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â thri o'r achosion a ystyriwyd drwy gyfrwng Rhybudd Ieuenctid, dau drwy Waredíad Adferol Ieuenctid, a thri drwy Rybudd Amodol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 1 |

### 5.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Nododd y Panel drwy achos dra hysbys, dystiolaeth o waith partneriaeth da, gan arwain at ymholiadau amddiffyn plant priodol yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r drwgdybyn ifanc. Fodd bynnag, oherwydd bygythiad honedig blaenorol y drwgdybyn i saethu cyd-ddisgyblion, roedd y Panel yn teimlo bod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn amhriodol ar gyfer yr achos hwn o sylwadau hiliol ac ymosodiad yn erbyn unigolyn ifanc arall. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod angen ystyried gwaith ataliol gyda'r unigolyn. Nid oedd yn ymddangos fel pe bai hyn digwydd o ganlyniad i'r cyfeiriad at y Swyddfa Ieuenctid.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr amser a gymerwyd i ddatrys yr achos, gan nodi bod tri mis wedi mynd heibio rhwng y drosedd ac ymddangosiad y drwgdybyn yn y Swyddfa Ieuenctid. Hefyd, nodwyd nad oed y bygythiad blaenorol i saethu disgyblion wedi'i gofnodi na'i ymchwilio. Cytunodd cynrychiolydd o'r Heddlu y byddai hyn yn cael ei ymchwilio ar frys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Camau Gweithredu:**

1. **Tîm Archwilio Troseddau Heddlu Dyfed-Powys i adolygu'r bygythiad honedig i ladd o fewn achos 1 er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gofnodi a'i ymchwilio'n briodol.**
2. **Rhoi adborth i'r Tîm Troseddau Ieuenctid y gallai'r drwgdybyn yn achos 1 elwa o waith ataliol.**

**Achos 2**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â difrod troseddol yn erbyn adeilad crefyddol. Nododd yr Aelodau bod y drwgdybyn wedi cytuno i weithio gyda gwasanaethau camddefnyddio alcohol a chyffuriau, fodd bynnag, mynegwyd pryder nad oedd y broblem o hiliaeth ymddangosiadol yn cael ei drin. Roedd yr Aelodau'n poeni am hanes troseddol blaenorol yr unigolyn, ac er eu bod yn fodlon bod Rhybudd yn briodol ar gyfer y drosedd dan sylw, trafodwyd pa un ai a ddylai trosedd cysylltiedig arall o fyrgleriaeth fod wedi'i ystyried ynghyd â'r difrod troseddol. Nodwyd bod oedi o ran sicrhau canlyniad yn yr achos hwn hefyd. Yn ogystal, trafodwyd y gallai fod cyfle ar gyfer dedfryd ataliol oherwydd nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r adeilad hwn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag Amheuon**

**Achos 3**

Dywedodd y Panel bod swyddogion wedi nodi bregusrwydd y dioddefydd yn bositif ac wedi rhoi gwybodaeth gefndir ddefnyddiol amdano. Roedd y troseddwr yn yr achos hwn wedi derbyn Rhybudd am sylwadau hiliol ac ymosod. Mynegodd yr Aelodau rai amheuon oherwydd troseddau blaenorol y drwgdybyn, sef targedu'r un grŵp o ffrindiau a hanes o beidio â mynd i gyfarfodydd Swyddfa Ieuenctid. Hefyd, trafodwyd y gallai elfen hiliol y drosedd fod wedi'i esgeuluso ac y byddai datganiad dioddefydd wedi bod yn fuddiol. Nodwyd bod amseroldeb datrys yn bryder yn yr achos hwn hefyd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag Amheuon**

**Achos 4**

Nododd yr Aelodau nifer o agweddau cadarnhaol i'r achos hwn lle'r oedd unigolyn ifanc wedi gwneud bygythiadau ar-lein i saethu mewn ysgol. Bu cyfathrebu da rhwng y Swyddfa Ieuenctid a'r swyddog er mwyn sicrhau ei fod yn briodol i'r Swyddfa ymdrin â'r achos. Digwyddiad unigryw ydoedd yn ymwneud ag unigolyn ifanc agored i niwed heb unrhyw dystiolaeth o fwriad i gyflawni'r bygythiad. Nododd adroddiad Swyddfa manwl faterion perthnasol ac roedd yr unigolyn ifanc wedi cytuno i gymryd rhan mewn rhaglenni cymorth. O'r herwydd, ystyriodd y Panel fod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon ynghylch y Gwarediad Adferol Ieuenctid hwn mewn ymateb i ddisgybl yn gwneud sylw homoffobig a phoeri tuag at ddisgybl arall. Cydnabu'r Panel hanes o gythrudd. Cytunodd y drwgdybiedig i ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad, ac roedd y dioddefydd yn fodlon â hyn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â difrod a graffiti sarhaus mewn ysgol gynradd. Roedd y pennaeth yn fodlon â Gwarediad Adferol Ieuenctid, ac roedd y Panel yn cytuno â hyn. Nododd y Panel y bu awgrym y dylai'r drwgdybiedigion gwblhau gwaith adferol gyda'r ysgol, fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod hyn wedi'i gwblhau.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r canlyniad, sef Rhybudd Ieuenctid, ar gyfer yr achos hwn o aflonyddu homoffobig. Fodd bynnag, nododd y Panel drosedd ychwanegol a ddigwyddodd o fewn 6 diwrnod i'r drosedd gyntaf a allai fod wedi'i thrin yn yr un cyfarfod Swyddfa Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu:**

3. **Tîm Archwilio Troseddau Heddlu Dyfed-Powys i adolygu'r drosedd ychwanegol a nodwyd o fewn achos 7 er mwyn sicrhau ei bod wedi'i chofnodi'n briodol.**

### Achos 8

Ni fynegodd yr Aelodau Panel unrhyw bryderon ynghylch canlyniad yr achos hwn o sylwadau hiliol a wnaed yn ystod sgwrs rhwng plant 11 a 12 oed wrth chwarae gemau ar-lein, sef Datryslad Cymunedol Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 6.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Ymdriniodd yr Aelodau Panel â saith achos oedolyn. Ymdriniwyd â thri o'r achosion a ystyriwyd drwy gyfrwng Rhybudd, a phedwar drwy Ddatrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Amhriodol | 1 |

## 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos:

### Achos 9

Daeth y Panel i'r casgliad bod Datrysiad Cymunedol yn briodol ar gyfer anghydfod rhwng cymdogion a oedd yn cynnwys sylwadau hiliol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 10

Ystyriwyd y byddai nifer o ffactorau gwaethygol, gan gynnwys natur gorfforol y digwyddiad a bod y dioddefydd yn cael ei dargedu'n gyson drwy ei waith fel gyrrwr tacsi, wedi cefnogi gorchymyn i ymddangos gerbron y llys. Fodd bynnag, gan nad oedd y dioddefydd yn cefnogi gweithredu pellach, roedd y Panel yn ystyried fod Rhybudd yn briodol. Nododd y Panel y dylai diffyg cefnogaeth y dioddefydd fod wedi'i nodi o fewn y datganiad tyst er mwyn cefnogi'r rhesymwaith.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 11

Digwyddodd y drosedd hon pan anfonodd cyn-ofalwr ohebiaeth sarhaus at unigolyn bregus yr oedd wedi gofalu amdano yn y gorffennol, ond a oedd yn ffrind erbyn hyn. Mynegodd yr Aelodau bryder bod y gofalwr mewn safle o ymddiriedaeth yn y gorffennol, fodd bynnag, roeddent yn cydnabod bod y drosedd wedi digwydd o fewn y cyfeillgarwch, ac nid yn ystod ei swydd. Nodwyd

hefyd bod cofnod o'r troseddwr yn ymddwyn yn amhriodol o dan ddylanwad alcohol. O'r herwydd, roedd y Panel, a'r dioddefydd, yn falch bod y drwgdybiedig wedi cael cynnig cymorth drwy'r rhaglen ddargyfeiriol fel rhan o Ddatrysiad Cymunedol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Daeth yr Aelodau Panel i'r casgliad ei fod yn briodol i'r troseddwr dderbyn Rhybudd am gyfeirio iaith sarhaus wedi'i ysgogi gan hiliaeth tuag at weithiwr mewn bwyty.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Daeth y Panel i'r casgliad bod Datrysiad Cymunedol yn briodol ar gyfer yr achos hwn o sylwadau sarhaus cymydog tuag at y dioddefydd. Roedd y dioddefydd yn fodlon â'r cam gweithredu hwn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Mynegodd yr Aelodau Panel bryder bod yr achos domestig hwn o ymosodiad heb anaf a waethygwyd gan hiliaeth wedi'i waredu drwy gyfrwng Rhybudd. Cyfaddefodd y troseddwr yn llawn i ymosodiad "lefel isel" ac nid oedd y dioddefydd yn cefnogi camau gweithredu gan yr heddlu, fodd bynnag, roedd y Panel yn poeni mai sefyllfa ddomestig oedd hon gyda thri o blant yn bresennol, bod y troseddwr wedi ymddwyn yn dreisgar yn y gorffennol pell, a bod y ffeil achos yn awgrymu nad oedd unrhyw faterion wedi'u hamlygu. Ystyriodd y Panel bod yr achos hwn yn dangos cyfle coll i ymyrryd, ac y dylai fod wedi arwain at y drwgdybiedig yn cael ei gyhuddo.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


**Achos 15**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â negeseuon cyfryngau cymdeithasol o natur trawsffobig yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at y dioddefydd. Nododd yr Aelodau bod gwaith partneriaeth da wedi arwain at gymorth ar gyfer y dioddefydd a'r troseddwr, a chanmolwyd yr adroddiad cynllun dargyfeiriol, a oedd wedi'i ysgrifennu'n dda.


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y gwelir yn y graff isod.




O'r 326 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2019, cafodd 57% eu hasesu'n briodol, 22% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan roedd cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn warediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2019.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2019.



### 7.1 Arfer da

Nodwyd yr ymarfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nifer o enghreifftiau o waith partneriaeth da a'r defnydd o wasanaethau cymorth a dargyfeirio er mwyn mynd i'r afael ag achosion ymddygiad troseddol.
- Nodwyd bregusrwydd y troseddwr a'r dioddefwyr, a sicrhawyd bod ganddynt gymorth priodol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau yn unol â dymuniadau'r dioddefwyr.

### 7.2 Meysydd sydd angen gwelliant

Roedd dau faes penodol ar gyfer gwella a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Awgrymodd yr Aelodau bod yr amser a gymerwyd i gyhoeddi canlyniad yn ormodol mewn tri o'r wyth achos ieuenctid a ystyriwyd.
- Roedd tri o'r achosion ieuenctid yn cynnwys troseddau ychwanegol. Daeth y Panel i'r casgliad y gellid fod wedi ystyried y troseddau hyn yn yr un Swyddfeydd Ieuenctid. Cytunwyd bod angen i'r Tîm Archwilio Troseddau ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn deall sut nad oedd hyn wedi digwydd.
- Er bod y manylion a gofnodwyd yn dda ar y cyfan, roedd rhai enghreifftiau lle'r oedd y Panel yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai tystiolaeth o rai agweddau o achosion wedi bod yn ddefnyddiol, gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu allan neu'n cwblhau amod adferol y gwarediad.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Cytunwyd mewn cyfarfod blaenorol y byddai'r Panel yn canolbwyntio ar droseddau cyllyll nesaf.